PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD LLUN, 14 TACHWEDD 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Molik(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Ash-Edwards, Boes, Lent, Lewis, Littlechild a/ac McGarry |

20 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi’u derbyn.

21 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi’u derbyn.

22 : PARTNERIAETH DATBLYGU TAI NEWYDD - I DDILYN

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn caniatáu i Aelodau ystyried cychwyn ail Bartneriaeth Datblygu Tai.

Atgoffwyd Aelodau'r Pwyllgor fod Atodiad B o'r papurau yn gyfrinachol, ac felly mae'n rhaid cymryd unrhyw gwestiynau ar y papur hwnnw mewn sesiwn gaeedig.

Croesawodd y Cadeirydd, ar gyfer yr eitem hon:

- Y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau
- Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau a;
- Dave Jaques, Rheolwr Datblygu Tai

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ar ôl hynny rhoddodd Swyddogion gyflwyniad. Yna gwahoddwyd yr aelodau i wneud unrhyw sylwadau, arsylwadau ac i ofyn unrhyw gwestiynau.

Gofynnodd yr aelodau pa wersi oedd wedi'u dysgu o'r bartneriaeth bresennol gyda Wates. Dywedodd swyddogion fod trefniadau partneriaeth yn cynnig hyblygrwydd, mwy o reolaeth a chyflymder darparu uwch a'u bod hefyd yn gallu helpu i 'ddad-risgio' rhaglen gyflenwi'r Cyngor, yn bennaf oherwydd y ffaith bod perthynas wedi'i sefydlu eisoes gyda'r partner ac felly gellir nodi a datrys risgiau yn gynt.

Holodd aelodau am rôl y Cyngor wrth sicrhau bod targedau partneriaid ac amserlenni cyflenwi yn cael eu cyrraedd. Cynghorwyd yr aelodau fod DPAau yn cael eu llunio fel rhan o drefniadau cytundebol ac mae perfformiad y partner yn cael ei adolygu'n barhaus.

Gofynnodd yr aelodau ynghylch sicrhau gwerth da am arian o fewn y bartneriaeth arfaethedig hon ac na fydd datblygwr yn monopoleiddio'r system. Dywedodd swyddogion y bydd hyn yn cael ei ystyried yn ofalus o fewn y broses gaffael a fydd yn dilyn, a bydd gofynion sylfaenol yn cael eu gosod o amgylch cost, adnoddau, gweithlu, a buddsoddiad lleol (ac ati) Ychwanegodd swyddogion bod hyblygrwydd o fewn trefniadau partneriaeth sy'n caniatáu newidiadau o ran hyfywedd safleoedd, ac ymateb i unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth. Cafodd aelodau hefyd wybod y bydd ymgynghorwyr costau yn cynghori'r Cyngor yn agos yn ystod y broses gaffael.

Mynegodd aelodau bryder dros faint y cynigion sydd yn y bartneriaeth hon a sut y bydd hyn yn effeithio ar y Rhaglen Darparu Tai bresennol, o ystyried nad yw targedau yn y rhaglen bresennol bob amser yn cael eu cyflawni. Cafodd yr aelodau wybod bod tua 760 o gartrefi wedi'u darparu ar hyn o bryd, y dylai dros 800 gael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, gyda chyfanswm cyfredol o 1,300 o eiddo naill ai wedi'u cwblhau neu'n cael eu hadeiladu.

Roedd yr aelodau'n pryderu am gyflymder darparu tai, a chynghorodd Swyddogion y dylai'r trefniant partneriaeth helpu i leihau'r amser y mae'n ei gymryd i ddarparu eiddo gan fod gan rai o'r safleoedd a gynigir yn y bartneriaeth ganiatâd cynllunio yn barod, gyda safleoedd eraill yn destun gwaith ar hyn o bryd gydag ymgynghorwyr dylunio i helpu i hwyluso'r ddarpariaeth yn gynt.

Nododd yr aelodau y pwynt a godwyd - er mwyn darparu eiddo, mae'n rhaid cael adnodd ariannol digonol, a rhaid i nifer digonol o eiddo fod wedi'u cwblhau i ddarparu incwm rhent i'r Cyngor, gan ganiatáu i safleoedd eraill symud ymlaen.

Cododd aelodau bryderon ynghylch capasiti a chawsant wybod, er bod tîm mewnol y Cyngor yn fach, bod yna gapasiti, a mantais o gychwyn partneriaeth newydd fydd dod ag adnodd ac arbenigedd newydd i mewn.

Nododd yr aelodau sut y gall y cyd-destun presennol (pris cynyddol deunyddiau a phrisiau ynni ac ati) a sut mae wedi, effeithio'n negyddol ar y rhaglen gyflenwi. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut mae hyn hefyd wedi arwain at ddatblygwr yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr a'r sgil-effeithiau y mae hyn wedi'u cael. Dywedodd swyddogion bod hyn yn amlygu'r budd o gychwyn partneriaeth tai newydd. Bydd partneriaeth yn gynllun hirdymor, y gobaith yw y bydd costau adeiladu yn gostwng yn ystod y blynyddoedd i ddod, ac y bydd datblygu cartrefi newydd yn dod ag incwm i'r Cyngor, i helpu i reoli'r pwysau ariannol presennol.

Wrth drafod eiddo gwag, nododd yr Aelodau raddfa, hyd amser a chostau o fewn y bartneriaeth arfaethedig, a cheisio sicrwydd y byddai defnyddio eiddo gwag yn profi'n fwy gwerth chweil ar hyn o bryd, ac os ystyrir hyn yn ofalus wrth ystyried y cynnig hwn. Dywedodd swyddogion fod y tîm cyflenwi tai yn gweithio gyda thîm y sector rhentu preifat i ystyried prynu eiddo gwag a'u hymgorffori yn y rhaglen gyflenwi.

Roedd yr aelodau am bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod isadeiledd lleol digonol yn ystyried flaenllaw mewn penderfyniadau ar ddatblygu eiddo. Yn ôl yr aelodau, pan fydd safleoedd yn cael eu cynnig yn Rhaglen Ddarparu'r Cyngor, mae cymunedau lleol yn cael eu gwneud yn ymwybodol, ar y cyfle cyntaf posib, ac mae eu hadborth ar y cynigion, gan gynnwys eu barn ar angen lleol, yn cael ei geisio'n ddigonol ac yn rhagweithiol.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r pwynt hwn gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan y Pwyllgor yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 ac 16 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 23 : PERFFORMIAD CH2 Y GWASANAETHAU OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU 2022/23

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn caniatáu i Aelodau ystyried y lefelau perfformiad ar gyfer gwasanaethau sy'n perthyn i gylch gwaith y Pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd, ar gyfer yr eitem hon;

- Y Cynghorwyr Thorne, Bradbury, Mackie a Sangani

- Y Swyddogion Jane Thomas a Helen Evans

Gofynnwyd i'r Aelodau Cabinet wneud unrhyw ddatganiadau agoriadol lle gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud unrhyw sylwadau neu arsylwadau.

Cododd yr aelodau bryder ynghylch diffyg Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol cymwys a gofynnwyd a yw'r Cyngor yn bwriadu gweithredu cyrsiau 'Cynorthwywyr Therapi Galwedigaethol' a phrentisiaeth i helpu i leihau'r pwysau a'r galw ar staff. Dywedodd swyddogion fod gwaith yn parhau i weithredu'r ddwy fenter

Nododd aelodau, er mwyn lleddfu pwysau staff, y gallai staff nad ydynt yn gymwys gael tasgau penodol. Roedd yr aelodau am bwysleisio'r angen i sicrhau bod risg yn cael ei lliniaru yn y dull hwn, ac nad yw'r angen i sicrhau ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn cael ei beryglu. Yn ôl swyddogion, mae dealltwriaeth glir ymhlith staff ynglŷn â pha dasg sy'n gofyn am staff cymwys a lle mae'n bosib y bydd tasgau yn cael eu hail-gyfeirio'n ddiogel. Pan fydd gwaith yn cael ei ailddyrannu, bydd yn cael ei wneud o dan oruchwyliaeth gyda'r rheolwyr yn sicrhau bod y gwaith cywir yn cael ei gyfeirio at y staff cywir, gyda'r lefel gywir o gymhwyster.

Bu'r aelodau yn trafod cyfraddau salwch ymhlith staff gan ofyn beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn a lefel y gefnogaeth sydd ar gael i staff. Cafodd yr aelodau eu cynghori bod amrywiaeth o brosesau a gwasanaethau cymorth ar waith, gyda phob achos o salwch staff yn cael ei adolygu'n weithredol.

Bu'r aelodau'n trafod her hirsefydlog y cylch dieflig i'r rhai sy'n wynebu digartrefedd. Nodwyd, yn Ch2, fod 40% o'r rhai sy'n cysgu ar y stryd wedi cadw eu llety, tra bod 95% o gleientiaid o fewn y cynllun 'Tŷ yn Gyntaf' wedi llwyddo i dorri'r cylch digartrefedd. Gofynnodd aelodau pam na ellid cynnig y cynllun hwn i fwy o unigolion,

a chawsant wybod bod hyn oherwydd prinder llety symud ymlaen, fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo ar ehangu'r cynllun.

Cafodd aelodau wybod am yr effaith y mae'r oedi o ran cyflwyno’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid wedi'i gael ar y Cyngor. Nododd aelodau bod yr ôl-groniad o achosion Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid wedi’i ddatrys ond nodwyd pryderon swyddogion y gallai'r ôl-groniad hwn ail-ymddangos oni bai bod y ddeddfwriaeth sydd i ddod yn cael ei symleiddio.

Cododd aelodau bryder ynghylch faint o amser a gymerwyd i gyflwyno Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac roeddent yn falch o gael sicrwydd bod yr ystadegau a nodwyd yn y papurau yn ymwneud â chwblhau gwaith yr unigolyn, ac nid faint o amser y mae'n ei gymryd iddynt dderbyn y grant. Roedd aelodau hefyd yn falch o glywed am yr atebion arloesol fel dulliau modiwlaidd sydd hefyd yn cael eu hystyried i helpu gyda chyflymder cyflwyno'r grant hwn.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

24 : ADOLYGIAD TALIADAU UNIONGYRCHOL - BRIFFIO

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i Aelodau fwydo i adolygiad y gwasanaeth o daliadau uniongyrchol.

Croesawodd y Cadeirydd, ar gyfer yr eitem hon;

- Y Cynghorwyr Mackie a Sangani

- Swyddog - Jane Thomas

Gofynnwyd i’r Aelodau Cabinet wneud unrhyw ddatganiadau agoriadol lle gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud unrhyw sylwadau neu arsylwadau.

Dywedodd aelodau fod ganddynt bryderon gyda'r system taliadau uniongyrchol, ac mae'r adolygiad hwn yn gyfle gwych i sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o brosesau ar waith i liniaru risgiau. Yr unigolion sy'n cael cynnig mynediad i'r system dalu uniongyrchol yw'r rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth. Golyga hyn fod posibilrwydd uchel y bydd yr unigolyn yn arbennig o agored i niwed. Roedd yr aelodau'n cydnabod yr angen i'r unigolyn gael cefnogaeth lawn i ddeall a llywio'r system, yn enwedig oherwydd bod cymhlethdod y prosesau, a’r cyfrifoldebau sydd eu hangen fel rheoli arian, fod yn broblematig i unigolyn sydd angen gofal. Dywedodd swyddogion fod y pryderon hyn yn cael eu rhannu a’u bod yn rheswm allweddol y tu ôl i'r adolygiad hwn gan y bydd cefnogaeth o'r fath yn cael ei darparu.

Gwnaeth aelodau ailadrodd eu pryderon, yn enwedig o ran y posibilrwydd y caiff unigolion sydd angen gofal a chymorth eu cam-drin yn ariannol. Ynghyd â'r ffaith nad oes gofyn i Gynorthwywyr Personol fod yn gymwys neu gael eu rheoleiddio, gan gynyddu pryderon diogelu. Yn ôl yr aelodau, o dan y cynigion, byddai proses sicrhau ansawdd ar waith, gan sicrhau y byddai unigolion sy'n darparu gofal yn cael eu fetio

ac yn cael hyfforddiant perthnasol, gan ddarparu mwy o wiriadau ar Gynorthwywyr Personol nag ar hyn o bryd.

Roedd yr aelodau hefyd yn poeni am yr angen i sicrhau bod pobl sy'n derbyn taliadau (Cynorthwywyr Personol), wedyn, mewn tro, wir yn darparu gofal i'r unigolyn. Cafodd yr aelodau wybod nad yw'r Cyngor yn gwirio'n barhaus fod yr unigolyn sy'n cael ei dalu yn darparu gofal, a chyfrifoldeb yr unigolyn sy'n derbyn gofal (neu ei deulu) yw rhybuddio'r Cyngor a fyddai wedyn yn ymchwilio.

Nododd yr aelodau yr heriau parhaus ynghylch recriwtio a gofynnwyd sut y bydd y cynnig micro-fentrau yn cynorthwyo recriwtio Cynorthwywyr Personol, heb arwain at y dasg anodd o gyrchu gofal yn cael ei 'throsglwyddo' i'r unigolyn sydd ei angen. Dywedodd swyddogion fod y sefydliad arfaethedig wedi helpu i recriwtio dros 5,000 o unigolion ar draws yr ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu, a bydd recriwtio hefyd yn cael ei wella drwy'r cydlynydd micro-fentrau sydd â chyswllt agos â'r Gwasanaeth i Mewn i Waith a Caerdydd ar Waith.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad a oedd y gyfradd dalu uniongyrchol yn cyd-fynd â chyfraddau asiantaeth cyfredol, gyda'r farn y gallai hyn ddarparu cyfradd well fesul awr i roddwyr gofal. Dywedodd swyddogion fod y cyfraddau talu uniongyrchol yn is na'r cyfraddau gofal a gomisiynir oherwydd y gorbenion llai, gan ei wneud yn fwy cost effeithiol i'r Cyngor.

Trafododd aelodau degwch y gwasanaeth, a'r angen i sicrhau bod mynediad i'r system yn decach, gan ganiatáu i fwy o bobl fynd i mewn i'r system taliadau uniongyrchol os ydyn nhw'n dymuno, heb drafferthion. Roedd swyddogion yn gobeithio y bydd y cynnig micro-fentrau yn helpu i fynd i'r afael â hyn a darparu system fwy hygyrch.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 25 : RHAGLEN WAITH PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION 2022/23

Rhoddodd y Prif Swyddog Craffu drosolwg o Raglen Waith ddangosol 2022/23 i'r Aelodau.

Nododd yr aelodau fod gan rai cyfarfodydd agenda hir a thrafodwyd pa eitemau allai o bosib gael eu symud neu gael eu tynnu oddi yno.

Ystyriodd yr aelodau Ryddhau o Ysbytai a thrafodwyd sut roedden nhw am archwilio hyn ymhellach gan gynnwys tystion allanol i ddarparu tystiolaeth a data o flaen llaw ar gapasiti.

## 26 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

27 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12 Rhagfyr 2022

Daeth y cyfarfod i ben am 4.50 pm